Maes Dysgu a Phrofiad
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Area of Learning and Experience
Languages, Literacy and Communication

Bwriad y Maes Dysgu a Phrofiad hwn / *The purpose of this Area of Learning and Experience*

Mae sgiliau ieithyddol cadarn yn allweddol mewn bywyd. O ganlyniad, ein nod ar draws yr amryw ieithoedd a addysgir yn Ysgol Gyfun Gŵyr yw datblygu cyfathrebwyr hyderus a huawdl, dinasyddion sy'n ymhyfrydu yn eu diwylliant a'u hunaniaeth Gymreig, a hynny o fewn cyd-destun rhyngwladol. Dymunwn i'n dysgwyr weld perthnasedd i'r ieithoedd y siaradant, nid yn unig mewn cyd-destun addysgol ond hefyd tu hwnt i furiau'r ystafell ddosbarth. Anelwn at ddatblygu unigolion sy'n cofleidio lluosieithrwydd ac sy'n medru gwneud cysylltiadau rhwng ieithoedd, gan ddeall gwreiddiau a tharddiad geiriau. Hoffwn weld ieuenctid sy'n cael eu cyffroi gan gyfoeth lenyddiaeth, a'u bod yn defnyddio llenyddiaeth i werthfawrogi'r byd o'u cwmpas. Cydweithiwn fel Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn datblygu sgiliau trosglwyddadwy a ellir eu datblygu a'u dyfnhau ymhellach ar draws yr ystod o ieithoedd a ddysgir. Ein nod yw gwneud hyn oll tra'n ennyn brwdfrydedd, chwilfrydedd a diddordeb gydol oes ymhob disgybl.

Strong linguistic skills are essential in life. Through the various languages studied at Ysgol Gyfun Gwyr, our aim is to develop confident and eloquent communicators, citizens who have pride in their culture and Welsh identity, but in a broad, international context. We want our learners to see the relevance of the languages that they speak, not only within an educational setting but beyond the confines of the classroom. Our learners will embrace multilingualism and make connections between languages, understanding their origins and etymology. Literature will enrich their lives and they will be inspired and excited by all it has to offer. As an Area of Learning and Experience, we will work side by side to develop transferable skills to our learners, skills which will further develop and deepen their understanding of the languages studied. All this will be done whilst encouraging the learners' enthusiasm, curiosity and life-long interest in languages.

Am beth bydd y disgyblion yn dysgu a sut byddan nhw'n dysgu?

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd medrau llafar, darllen ac ysgrifennu'r dysgwyr yn cael eu datblygu trwy'r ystod eang o brofiadau y byddant yn derbyn. Yn greiddiol i gynllunio'r cwricwlwm newydd, bydd egwyddorion y 4 diben sef i greu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sydd hefyd yn unigolion iach a hyderus. Bydd y dysgwyr hefyd yn barod i fentro a meddwl yn greadigol am sefyllfaoedd ond sydd hefyd yn ddinasyddion egwyddorol a deallus am y byd o'u cwmpas. I sicrhau fod dysgwyr yn gweld cysylltiadau rhwng ieithoedd, dilynir cynllun lluosieithrwydd strwythuredig a fydd yn dwyn sylw'r dysgwyr at yr elfennau gramadegol sy'n cysylltu pob iaith. Yn sail i lawer o'r dysgu, bydd ffocws blaenllaw ar ein hardal leol, ein gwlad a'n cenedl a'n dylanwad ar lwyfan rhyngwladol.

What will the pupils learn and how will they learn?

In Key Stage 3, the learner's oracy, reading and writing skills will be developed through the wide range of activities they will experience. Central to the planning of the new curriculum will be the 4 purposes which will create ambitious, capable learners who are healthy and confident. Our learners will be enterprising and able to think creatively. They will also be ethical, informed citizens who have a solid understanding of the world in which they live. To ensure that learners see connections between languages, a structured, multilingualism programme will be followed which will draw the learners' attention to grammatical elements which connect languages. As a basis to much of the learning, there will be a prominent focus on our local area, our nation and country and our impact on an international level.

Ym Mlwyddyn 7 bydd y dysgwyr yn astudio Cymry enwog a heriodd confensiynau (e.e. hanes y Brythoniaid, yr allfudo i Batagonia) yn eu gwersi Cymraeg. Byddant hefyd yn dysgu am eu bro a digwyddiadau hanesyddol o fewn eu milltr sgwar e.e. Terfysgoedd Beca a thrwy wneud hynny sicrhau cyd-destun dilys ar gyfer eu dysgu. Yn ogystal â hyn, astudir nofel er mwyn datblygu cariad at lenyddiaeth. Yn eu gwersi Saesneg, astudir y thema o "Heroes" gan olrhain nodweddion arwrol o Beowulf i efennau mwy lleol fel Jack Abertawe ac hanes Edgar Evans. Bydd yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol yn ymwneud ag ystod eang o bynciau'n cynnwys y teulu, yr ysgol, adeiladau a phensaerniaeth, a'r ardal leol. Bydd dysgwyr hefyd yn dysgu am fwydydd yn cynnwys bwydydd iach. Ffocysir ar elfennau gramadegol hefyd e.e. y fannod, therfyniadau berfol a rhagenwau a chaiff rhain eu hatgyfnerthu gan bob adran iaith. Ar draws yr holl ieithoedd, defnyddir ystod eang o ddulliau addysgu gydag egwyddorion asesu ar gyfer dysgu yn ganolog i hybu datblygiad yr unigolyn.

In Year 7, learners will study enterprising Welsh individuals who challenged conventions (e.g. the history of the Celtic Britons, Boudica, emigration to Patagonia) in their Welsh lessons. They will also learn about historic events which occurred within their square mile e.g. the Rebecca Riots in Pontarddulais, thus ensuring an authentic context for their learning. In addition to this, a novel will also be studied to develop the learners' love of literature. In their English lessons, learners will focus on the theme of "Heroes", recognising heroic characteristics and researching local and European heroes, from Beowulf to Swansea Jack. The MFL Department will cover a wide range of topics, including the family, school, buildings and architecture and the local area. Learners will also study foods and healthy eating. Focus will also be given to grammatical elements e.g. the definite article, verb endings, prepositions etc and these will be reinforced by every language department. Across the various languages, a broad repertoire of teaching approaches will be used, with the principles of assessment for learning central to accelerate the progress of every learner.

Ym Mlwyddyn 8, astudir nofel "Pluen" sy'n ymwneud â dimensia yn y gwersi Cymraeg. Defnyddir y nofel fel sail i weithgareddau sy'n helpu i greu dinasyddion deallus ac empathetig. Bydd dysgwyr hefyd yn dysgu am chwedlau ac hanesion Cymreig, yn ogystal ag astudio uned am ymwybyddiaeth amgylcheddol. Bydd hyn, yn ei dro, yn atgyfnerthu a dyfnhau gwybodaeth dysgwyr am faterion amgylcheddol lleol a byd-eang. Mae'r Adran Saesneg yn canolbwyntio ar brofiadau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan ddarllen nofel Michael Morpugo "Private Peaceful". Rhoddir sylw hefyd i'r dimensiwn Cymreig a chyfraniad y Cymry i'r Rhyfel Mawr. Yn ogystal, bydd dysgwr yn astudio "A Child's Christmas in Wales", gan un o feibion enwocaf Abertawe, Dylan Thomas. Bydd dysgwyr hefyd yn dysgu am dywydd eithafol cyn parhau i astudio drama Shakespeare "A Midsummer Night's Dream". Bydd yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol yn astudio atyniadau mewn gwledydd tramor, siopa a chynllunwyr ffasiwn enwog. Byddant hefyd yn dysgu am drafnidiaeth a'i effaith amgylcheddol.

In Year 8, learners study the novel "Pluen" which deals with dementia in their Welsh lessons. The novel will be used as a basis for activities which will help develop intelligent and empathetic individuals. Pupils will also learn about Welsh tales and legends as well as studying an unit about environmental awareness. This in turn will reinforce and deepen the learners' prior knowledge of environmental concerns both locally and internationally. The English Department will concentrate on the experiences of soldiers in the Great War, paying particular attention to the contribution of Welsh men and women. They will also study "A Child's Christmas in Wales", by one of Swansea's most famous sons, Dylan Thomas. Pupils will also learn about extreme weather before moving on the study Shakespeare's "A Midsummer Night's Dream." The MFL department will teach pupils about visitor attractions, shopping and famous French fashion designers. They will also consider transportation and its environmental impact.

Ym Mlwyddyn 9 yn eu gwersi Cymraeg, astudir y gorffennol yng Nghymru gan ffocysu ar ddigwyddiadau allweddol megis Cilmeri, Aberfan a Thryweryn. Bydd y dysgwyr hefyd yn astudio beirdd Cymreig o'r 8fed ganrif i'r presennol. Bydd eu gwersi Saesneg yn canolbwyntio ar y cysyniad o wrthdaro drwy astudio "Romeo and Juliet". Caiff y dysgwyr gyfle i ystyried themâu cyfoes megis figaniaeth ac a ddylem fwyta bwydydd mwy gwyrdd? Yn eu gwersi Ieithoedd Rhyngwladol, astudir amrywiaeth o feysydd yn cynnwys byd gwaith, traddodiadau, daearyddiaeth a diwylliant Ffrainc. Yn eu blwyddyn gyntaf o astudio Sbaeneg, ffocysir ar bynciau megis gwyliau a bwydydd yn ogystal â dyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr o ansoddeiriau a berfau.

In Year 9, learners will study Wales's past, focussing on key events like Cilmeri, Aberfan and Tryweryn. Students will also study Welsh poets from the 8th century to the present day. Their English lessons will focus on the theme of conflict, by studying the play "Romeo and Juliet". Learners will have the opportunity to study contemporary topics like veganism and whether we should all "go green" when it comes to our diets? In their MFL lessons, learners will deal with various topics in Year 9, including jobs and the world of work, French traditions, geography and culture. Students will also begin studying Spanish where they will learn about festivals, foods as well as develop their understanding of adjectives and verbs.